Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
Tribunals Service

Apeliadau Treth

Arweiniad ar apelio yn erbyn penderfyniadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar dreth incwm a materion yn ymwneud â threthi uniongyrchol eraill

Ebrill 2008
diwygiedig Mehefin 2008

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Beth alla i apelio yn ei erbyn?	3
Pwy all apelio?	4
I bwy y byddaf yn apelio?	4
Sut mae apelio?	5
Oes yna gyfyngiad amser ar gyfer apelio?	6
A godir tâl am gyflwyno apêl?	6
Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno f'apêl?	6
Oes rhaid i mi barhau i drafod gyda Chyllid a Thollau EM nes y penderfynant anfon fy apêl ymlaen i'r Comisiynwyr?	7
Oes rhaid i mi barhau i dalu treth neu gyfraniadau YG tra wyf yn disgwyl i'm hapêl gael ei setlo?	7
Ga' i dynnu fy apêl yn ôl?	8
Ble bydd f'apêl yn cael ei chynnal?	8
Fydd rhaid i mi fod yn bresennol yn y gwrandawiad?	9
Gaiff rywun arall fy nghynrychioli yn y gwrandawiad?	9
Pa gymorth sydd ar gael os oes gennyf anghenion arbennig?	10
Sut y dylwn i baratoi ar gyfer fy ngwrandawiad?	11
Fydd y gwrandawiad yn un cyhoeddus neu breifat?	12
Beth sy'n digwydd yn ystod y gwrandawiad?	12
Beth sy'n digwydd ar ôl y gwrandawiad?	14
Beth alla' i wneud os ydw i'n colli f'apêl?	14
Y gyfraith	19
Rhestr Termau	20
Cwynion	22
Cysylltiadau defnyddiol	23

CYFLWYNIAD

Fel pawb arall bron yn y Deyrnas Unedig, mae'n debyg bod gennych ryw gysylltiad â Chyllid a Thollau EM mewn perthynas â threthi uniongyrchol, hynny yw, eich treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu amrywiaeth o bynciau eraill yn gysylltiedig â threth, cyflogaeth neu fusnes.

Fel arfer, mae cysylltiad o'r fath yn un rheolaidd ac yn achosi dim trafferth, ond weithiau fe all Cyllid a Thollau EM anfon penderfyniad atoch ar un o'r pynciau hyn nad ydych yn cytuno ag ef. Os digwydd hyn, efallai y gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad. Gallwch ysgrifennu at Gyllid a Thollau EM gan ddweud eich bod o'r farn bod eu penderfyniad yn anghywir. Yna byddant yn ceisio dod i gytundeb gyda chi ynglŷn â beth ddylai'r penderfyniad cywir fod; mae'r rhan fwyaf o apeliadau'n cael eu datrys yn y modd hwn.

Ond, os na allwch ddod i gytundeb, bydd modd i chi a Chyllid a Thollau EM gyflwyno eich achosion eich hunain yn bersonol naill ai gerbron Comisiynydd Cyffredinol neu Arbennig, corff cyfreithiol cwbl annibynnol, a gadael iddynt hwy benderfynu pwy neu beth sy'n iawn.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i chi ar bob agwedd ar y broses apelio yng nghyswllt y trethi uniongyrchol a restrir ar dudalen 2. Ceir llyfrynnau eraill ar gyfer trethi anuniongyrchol, megis Treth Ar Werth, Tollau Tramor a Chartref, y gallwch eu cael oddi wrth Cyllid a Thollau EM.

Nodyn Pwysig:

Mae system apeliadau Treth wrthi'n cael ei diwygio. O fis Ebrill 2009 ymlaen bwriedir ymdrin ag apeliadau Treth mewn modd gwahanol. Bydd proses adolygu mewnol newydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a thribiwnlys apeliadau treth newydd.

Bydd canllawiau newydd ar gael yn gynnar yn 2009 ar gyfer achosion a wrandewir o fis Ebrill 2009 ymlaen gan y tribiwnlys treth newydd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn http://www.financeandtaxtribunals.gov.uk/taxAppealsModernisation.htm

Dalier sylw:

Arweiniad yn unig yw'r wybodaeth a roddir ac ni ddylid ei hystyried yn ddatganiad cyflawn neu awdurdodol o'r gyfraith.

Cynhyrchir y llyfryn hwn gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar ran y Comisiynwyr Cyffredinol ac Arbennig, a chyda'u cymeradwyaeth. Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sy'n gyfrifol am y polisi cyffredinol sy'n llywio'r modd y mae'r Comisiynwyr yn gweithredu ac yn cael eu gweinyddu. Ond ni allwn ddylanwadu ar eu dehongliad hwy o'r gyfraith, na gwneud sylwadau arno nac ar unrhyw benderfyniadau a wneir ganddynt mewn achosion unigol.

Beth alla i apelio yn ei erbyn?

Mae Cyllid a Thollau EM yn ymdrin ag ystod eang o faterion treth, Yswiriant Gwladol a materion eraill megis:

- asesu faint o dreth incwm y mae'n rhaid i chi ei thalu
- hysbysiadau cod Talu Wrth Ennill (PAYE)
- Hunanasesiadau
- cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)
- statws cyflogaeth (a yw rhywun yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig)
- tâl salwch/tâl mamolaeth/tâl tadolaeth/tâl mabwysiadu statudol
- treth gorfforaeth
- treth enillion cyfalaf
- treth etifeddu
- treth stamp ar dir
- ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr

Os derbyniwch benderfyniad gan Gyllid a Thollau EM ar unrhyw un o'r materion hyn, ac yn credu ei fod yn anghywir, gallwch apelio yn ei erbyn. Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn, ac os ydych yn ansicr a oes modd i chi apelio, efallai y byddai'n ddoeth i chi geisio cyngor proffesiynol gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu asiantaeth gynghori. Neu gall eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM leol neu Ganolfan Ymholiadau leol roi cyngor i chi.

Dalier sylw: Nid yw'r llyfryn hwn yn ymdrin â materion yn ymwneud â chredydau treth, treth ar werth (TAW) na thollau tramor a chartref. Os dymunwch gyflwyno apeliadau ynglŷn â phenderfyniadau ar y materion hyn, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM neu'r Tribiwnlysoedd TAW a Thollau – gweler **'Cysylltiadau Defnyddiol'** ar dudalen 23.

Pwy all apelio?

Mae gan bawb sy'n derbyn penderfyniad (gan gynnwys hysbysiad o asesiad) oddi wrth Gyllid a Thollau EM hawl i apelio. Gallant hefyd awdurdodi cynghorydd proffesiynol i apelio ar eu rhan.

Mewn rhai achosion, megis rhai yn ymwneud â thâl salwch/tâl mamolaeth/tâl tadolaeth/tâl mabwysiadu statudol cyflwynir hysbysiadau o benderfyniad i'r cyflogwr a'r cyflogai, ac mae gan y ddau hawl i apelio.

I bwy y byddaf yn apelio?

Gallwch apelio un ai i'r **Comisiynwyr Cyffredinol** neu i'r **Comisiynwyr Arbennig**. Pan fydd un ai'r Comisiynwyr Cyffredinol neu'r Comisiynwyr Arbennig yn eistedd i wrando apêl, fe'u gelwir yn **Dribiwnlysoedd Treth**.

Mae'r Comisiynwyr Cyffredinol a'r Comisiynwyr Arbennig yn gwbl annibynnol ar Gyllid a Thollau EM. Eu tasg hwy yw edrych yn wrthrychol ac yn ddiduedd ar ffeithiau pob achos a ddygir ger eu bron, cymhwyso'r gyfraith i'r ffeithiau hynny, a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol ai peidio.

Dalier sylw: Yn y llyfryn hwn, pan fydd angen dweud pethau gwahanol am y Comisiynwyr Cyffredinol ac Arbennig, defnyddir eu teitlau llawn. Pan fo'r un peth yn berthnasol i'r ddau, cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Tribiwnlysoedd.

Penodir **Comisiynwyr Cyffredinol** gan yr Arglwydd Ganghellor (neu, yn yr Alban, gan Weinidogion yr Alban). Maent yn ymdrin ag achosion a gyfyd mewn ardaloedd arbennig o'r wlad a elwir yn **Rhanbarthau**. Gwirfoddolwyr di-dâl ydynt, y bwriedir iddynt gynrychioli'r bobl a'r amodau yn y Rhanbarth yr apwyntir hwy iddo. Fe'u cynorthwyir gan **Glercod** lleol, a'r rheini'n aml yn gyfreithwyr cymwysedig. Mae'r Clercod yn trefnu ac yn rheoli gwaith y Comisiynydd Cyffredinol a gallant, os bydd raid, roi cyngor iddynt ar faterion cyfreithiol.

Penodir y **Comisiynwyr Arbennig** hwythau hefyd gan yr Arglwydd Ganghellor (wedi ymgynghori â Gweinidogion yr Alban yn yr Alban). Byddant un ai'n derbyn cyflog neu ffi, ac maent yn gyfreithwyr cymwysedig. Rhoddir cymorth gweinyddol iddynt hwythau hefyd (ond dim cyngor cyfreithiol) gan staff a ddarperir gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Am wybodaeth benodol ynglŷn ag apelio i'r Comisiynwyr Arbennig, gallwch gael taflen am ddim Apeliadau ac achosion eraill gerbron y Comisiynwyr Arbennig sydd ar gael oddi wrth y Comisiynwyr Arbennig – gweler **Cysylltiadau Defnyddiol.**

Oni bai eich bod chi neu Gyllid a Thollau EM yn gwneud cais i'r gwrthwyneb, fel arfer gwrandewir eich apêl gan y Comisiynwyr Cyffredinol. Ond os yw eich achos yn un anarferol o gymhleth, technegol neu hirfaith, fe'i clywir fel arfer gan y Comisiynwyr Arbennig. Hefyd, gallwch chi a Chyllid a Thollau EM ofyn am i achos gael ei drosglwyddo o'r Comisiynwyr Cyffredinol i'r rhai Arbennig, a gall y Comisiynwyr Cyffredinol eu hunain ddewis trosglwyddo achos. Mae rhai achosion na allant gael eu clywed ond gan y Comisiynwyr Arbennig.

Dalier sylw: Efallai y deuwch ar draws cyfeiriad at Gomisiynwyr Cyllid a Thollau yn eich trafodion gyda Chyllid a Thollau EM. Swyddogion Cyllid a Thollau EM yw'r rhain sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli'r system dreth ac nid oes ganddynt ddim cysylltiad â'r Comisiynwyr Cyffredinol ac Arbennig annibynnol.

Sut mae apelio?

Rydych yn gwneud eich apêl drwy ysgrifennu at Gyllid a Thollau EM, i'r cyfeiriad a ddangosir ar y penderfyniad, gan ddatgan eich bod eisiau apelio i un ai'r Comisiynwyr Cyffredinol neu'r rhai Arbennig.

Rhaid i chi anfon eich apêl i Gyllid a Thollau EM yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r tribiwnlysoedd, er mwyn caniatáu i Gyllid a Thollau EM ailystyried eich achos a cheisio dod i gytundeb â chi cyn y bydd angen i'r tribiwnlysoedd ddod i ymwneud yn ymarferol â'r achos.

Dylai eich llythyr gynnwys eich enw, eich rhif Yswiriant Gwladol ac unrhyw rif asesiad, cyfeirnod neu rif ffeil a ddangosir ar y penderfyniad. Dylech hefyd ddweud pam y credwch fod y penderfyniad y dymunwch apelio yn ei erbyn yn un anghywir, ac, os oes modd, beth yn eich barn chi, ddylai'r penderfyniad cywir fod. Yn olaf, dylech ddweud ble yr hoffech i'ch apêl gael ei chlywed.

Oes yna gyfyngiad amser ar gyfer apelio?

Oes. Rhaid i'ch apêl gyrraedd Cyllid a Thollau EM ddim hwyrach na 30 diwrnod o'r dyddiad ar yr hysbysiad o'r penderfyniad.

Os byddwch yn cyflwyno apêl ar ôl y terfyn amser o 30 diwrnod, rhaid i chi roi rhesymau da pam mae eich apêl yn hwyr – er enghraifft efallai i chi fod yn yr ysbyty, neu dramor. Os na fydd Cyllid a Thollau EM yn derbyn eich rhesymau, bydd yn dal yn bosib i chi ofyn i'r Tribiwnlys ystyried eich cais i gyflwyno apêl hwyr.

A godir tâl am gyflwyno apêl?

Na, ni fydd yn rhaid i chi dalu am gyflwyno apêl. **Ond bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw gostau a ddaw i'ch rhan drwy baratoi a chyflwyno'ch achos, gan gynnwys unrhyw ffioedd cyfreithiol neu gyfrifyddol ac unrhyw gostau teithio**.

Nid oes gan y Comisiynwyr Cyffredinol bwerau i ddyfarnu costau felly, os collwch eich apêl, ni fydd gofyn i chi dalu costau Cyllid a Thollau EM. Fydd dim modd i chi hawlio eich costau eich hun os byddwch yn ennill chwaith.

Mae gan y Comisiynwyr Arbennig bwerau cyfyngedig i ddyfarnu costau, ond dim ond os credant fod parti mewn apêl wedi gweithredu'n hollol afresymol mewn perthynas â gwrandawiad.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno f'apêl?

Pan fydd Cyllid a Thollau EM yn derbyn eich llythyr apêl, byddant yn cysylltu â chi ac yn ceisio datrys y mater dan sylw drwy gyd-gytundeb.

Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu datrys yn y modd hwn, ac os gallwch gyrraedd cytundeb, bydd eich apêl wedi'i setlo, ac ni fydd angen gwrandawiad nac unrhyw gamau pellach.

Os na fydd modd i chi ddod i gytundeb, bydd Cyllid a Thollau EM yn trosglwyddo'r achos i ddwylo Clerc y tribiwnlys perthnasol fel y gellir gwneud trefniadau ar gyfer gwrando eich apêl yn ffurfiol.

Oes rhaid i mi barhau i drafod gyda Chyllid a Thollau EM nes y penderfynant anfon fy apêl ymlaen i'r tribiwnlys?

Na. Gallwch gysylltu â Chlerc y tribiwnlys perthnasol ar unrhyw adeg gan ofyn am drefnu gwrandawiad cyn gynted â phosibl – gweler **Cysylltiadau Defnyddiol**. Gallwch wedyn barhau i drafod gyda Chyllid a Thollau EM hyd at ddyddiad eich gwrandawiad.

Oes rhaid i mi barhau i dalu treth neu gyfraniadau YG tra wyf yn disgwyl i'm hapêl gael ei setlo?

Nid o anghenraid. Os ydych yn apelio yn erbyn asesiad treth neu ddiwygiad i'ch Hunanasesiad, gallwch wneud cais i Gyllid a Thollau EM i ohirio gorfod talu cyfran neu'r cyfan o unrhyw dreth a wrthwynebir neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 sy'n gysylltiedig. Bydd unrhyw weddill, na chytuna Cyllid a Thollau EM i'w ohirio, yn parhau'n daladwy, er y bydd gennych hawl i ofyn i'r Tribiwnlys benderfynu faint o'r dreth na ddylech orfod ei thalu nes y bydd canlyniad yr apêl i law. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar yr apêl, os canfyddir eich bod wedi talu gormod o dreth neu Yswiriant Gwladol, bydd Cyllid a Thollau EM yn ad-dalu'r swm hwn i chi, ynghyd â llog.

Rhaid i chi gyflwyno cais am ohiriad i Gyllid a Thollau EM o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Nid yw'r darpariaethau gohirio'n berthnasol i gyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 1, 1A na 2. Ond gallant fod yn berthnasol i drethi eraill megis treth stamp ar dir. Am fwy o wybodaeth am ohirio a materion cysylltiedig megis talu llog posibl, cysylltwch â'ch Swyddfa Cyllid a Thollau EM leol.

Ga' i dynnu fy apêl yn ôl?

Gallwch. Fel rheol, mae'n bosibl tynnu eich apêl yn ôl drwy ysgrifennu at Gyllid a Thollau EM gan ddweud wrthynt nad ydych yn dymuno bwrw 'mlaen mwyach. Nid oes rhaid i chi roi rheswm.

Mae gan Gyllid a Thollau EM hawl i wrthod caniatáu i apêl gael ei thynnu'n ôl, ond yn anaml iawn y byddant yn ei ddefnyddio, fel arfer pan gredant fod asesiad treth gwreiddiol dan apêl yn rhy isel. Os gwrthodant â chaniatáu tynnu'n ôl, rhaid iddynt wneud hynny o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais.

Ble bydd f'apêl yn cael ei chynnal?

Fel arfer, os mai apêl i'r Comisiynwyr Cyffredinol a wnaed gennych, gallwch ddewis iddi gael ei chlywed yn y Rhanbarth lle rydych yn byw, neu lle rydych yn gweithio, neu lle y mae eich busnes wedi'i leoli. Dylech ddweud pa un o'r rhain fyddai orau gennych wrth gyflwyno'ch apêl. **Os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd Cyllid a Thollau EM yn dewis y lleoliad ar gyfer y gwrandawiad. Unwaith i'r dewis gael ei wneud, allwch chi ddim ei newid**.

Os yw eich apêl yn un i'r Comisiynwyr Cyffredinol ac yn ymwneud â threth stamp ar dir, mae'r dewisiadau ynglŷn â lle y gellir ei chynnal yn fwy cymhleth. Gall prynwr sy'n unigolyn gael gwrandawiad i'w apêl yn y Rhanbarth lle y mae'n byw neu lle y lleolir ei fusnes (os yw'n berthnasol). Gall prynwr sy'n gwmni gael gwrandawiad i'w apêl yn y Rhanbarth lle y lleolir man busnes y cwmni. Gall prynwr sy'n bartneriaeth gael gwrandawiad i'w apêl yn y Rhanbarth lle y lleolir man busnes y bartneriaeth. Lle bo'r fan sy'n destun y trafodion tir wedi'i lleoli mewn mwy nag un Rhanbarth, gall y prynwr ddewis i'r apêl gael ei chlywed yn unrhyw un o'r Rhanbarthau hyn. Mae nifer o amgylchiadau anarferol eraill allai godi, ac os ydych yn ansicr dylech geisio cyngor gan eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM neu eich Canolfan Ymholiadau.

Os bydd eich apêl yn un i'r Comisiynwyr Arbennig, bydd yn cael ei chlywed fel arfer un ai yn Llundain, Manceinion, Caeredin neu Belfast. Fodd bynnag,

fe wnaiff y Comisiynwyr Arbennig ystyried ceisiadau i wrando apeliadau mewn unrhyw fan sydd ag adeiladau addas, os credant fod rhesymau da dros gynnal gwrandawiad lleol – efallai y byddwch, er enghraifft, eisiau galw nifer o dystion sydd i gyd yn byw neu'n gweithio mewn ardal benodol Dalier sylw: Allwch chi ddim hawlio ad-daliad am unrhyw gostau teithio neu gostau eraill allai ddod i'ch rhan wrth fynychu gwrandawiad eich apêl.

Dalier sylw: Allwch chi ddim hawlio ad-daliad am unrhyw gostau teithio neu gostau eraill allai ddod i'ch rhan wrth fynychu gwrandawiad eich apêl.

Fydd rhaid i mi fod yn bresennol yn y gwrandawiad

Na fydd. Fodd bynnag, bydd y Tribiwnlys fel rheol yn disgwyl i chi fod yno. Os byddwch eisiau cyflwyno tystiolaeth bellach neu holi tystion, bydd yn rhaid i chi fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Yn aml, efallai na fydd y dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael yn ddigonol ynddi'i hun i alluogi'r Tribiwnlys i ddod i benderfyniad, a byddant angen iddynt eich holi er mwyn cael ffeithiau cyflawn a chywir yr achos.

Yn bwysicach na dim, gall bod yn bresennol yn y gwrandawiad helpu'ch apêl yn aml; gallwch drafod eich achos wyneb yn wyneb, egluro unrhyw drafferthion neu amheuon allai fod gan y Tribiwnlys, a'u cynorthwyo'n ymarferol i wneud penderfyniad cywir.

Byddwch yn derbyn hysbysiad gan Glerc y Tribiwnlys i'ch hysbysu o'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad o leiaf 28 diwrnod cyn y gwrandawiad. Os oes rheswm da pam na allwch chi fod yn bresennol (megis gwaeledd, profedigaeth neu faterion domestig eraill), gallai'r Tribiwnlys gytuno i ohirio'r gwrandawiad i ddyddiad diweddarach. Os ydych am i wrandawiad gael ei ohirio, dylech ysgrifennu at y Clerc, gan roi eich rhesymau. Os methwch â bod yn bresennol heb reswm da, ac nad ydych yn cael eich cynrychioli, gall y Tribiwnlys glywed yr apêl yn eich absenoldeb. Efallai y bydd Cyllid a Thollau EM hefyd yn gwneud cais am ohiriad.

Gaiff rhywun arall fy nghynrychioli yn y gwrandawiad?

Caiff. Gallwch awdurdodi unrhyw un o'ch dewis i'ch cynrychioli. Fodd bynnag, os nad yw'r person hwnnw'n gyfreithiwr cymwysedig neu'n gyfrifydd proffesiynol, gall y Tribiwnlys wrthod caniatáu iddo ef/iddi hi eich cynrychioli, os teimlant fod rheswm da dros wneud hynny.

Os gwneir apêl gan gwmni yn hytrach nag unigolyn, gall y Tribiwnlys gytuno i gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni ymddangos. Mae hefyd yn beth cyffredin i gwmnïau gael eu cynrychioli gan asiant proffesiynol megis cyfreithiwr neu gyfrifydd.

Os ydych eisiau i rywun eich cynrychioli yn y gwrandawiad, dylech ddweud hynny yn eich llythyr apêl. Ond, hyd yn oed os byddwch yn cael eich cynrychioli, bydd y Tribiwnlysoedd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dal i ddisgwyl i chi fod yn bresennol yn y gwrandawiad eich hun hefyd.

Mewn rhai amgylchiadau prin iawn, ac yn ddarostyngedig i amodau llym, efallai y bydd modd i chi hawlio arian cyhoeddus (a elwid gynt yn gymorth cyfreithiol) ar gyfer cyngor cyfreithiol a chost cynrychiolaeth. Am wybodaeth ar hyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol – gweler **Cysylltiadau defnyddiol**. Nid yw arian cyhoeddus ar gael ar gyfer cynrychiolaeth yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon.

Pa gymorth sydd ar gael os oes gennyf anghenion arbennig?

Os oes gennych broblemau corfforol (megis trafferthion symud, nam ar y golwg neu'r clyw neu anghenion arbennig eraill) dylech hysbysu Clerc y Comisiynwyr Cyffredinol am y rhain cyn gynted ag y derbyniwch hysbysiad o ddyddiad y gwrandawiad.

Os oes gennych drafferthion gyda'r iaith Saesneg, gallwch ofyn i'r Clerc drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol yn y gwrandawiad ac i unrhyw bapurau yn ymwneud â'r apêl gael eu cyfieithu. Gall y Clerc hefyd drefnu arwyddwr neu ddarllenydd os byddwch angen un.

Beth bynnag fo'ch problemau, bydd y Clerc yn gwneud popeth yn ei allu i sicrhau y gallwch fynychu'r gwrandawiad, a deall a chwarae eich rhan yn llawn yn yr achos.

Ni chodir tâl arnoch am unrhyw drefniadau arbennig a wneir ar eich rhan.

Sut y dylwn i baratoi ar gyfer fy ngwrandawiad?

Dylech ragdybio na fydd gan y Tribiwnlys unrhyw wybodaeth am ffeithiau na natur eich apêl cyn y gwrandawiad, ac y bydd yn rhaid i chi egluro popeth iddynt.

Mae'n debyg y cewch y bydd o gymorth i drafod yr achos gyda Chyllid a Thollau EM a llunio datganiad cytunedig o ffeithiau a chasgliad o waith papur perthnasol. Bydd hyn yn symleiddio'ch paratoadau, yn arbed amser yn y gwrandawiad ac yn caniatáu i'r Tribiwnlys ganolbwyntio ar y mater dan sylw. Os deuwch â phapurau i'r gwrandawiad, dylech ddod â chopïau ychwanegol ar gyfer y tribiwnlys ac ar gyfer cynrychiolydd/cynrychiolwyr Cyllid a Thollau EM. Os oes gennych lawer o bapurau, dylech eu rhifo a nodi'n glir unrhyw dudalennau neu rannau y credwch sydd o bwysigrwydd arbennig.

Bydd y Comisiynwyr Arbennig yn benodol yn disgwyl i chi fod wedi paratoi eich achos yn y modd hwn, gan ddarparu casgliad o ddogfennau perthnasol ar eu cyfer, wedi'u trefnu a'u rhifo'n iawn, cyn y gwrandawiad.

Pa Dribiwnlys bynnag yr ydych yn apelio iddo, dylech ystyried y canlynol

- beth yw union ffeithiau eich achos
- pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r ffeithiau hynny a pha dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn fod penderfyniad Cyllid a Thollau EM yn anghywir
- a oes gennych unrhyw dystion perthnasol ac a fydd modd iddynt hwy a/neu eich cynrychiolydd (os oes gennych un) fod yn bresennol yn y gwrandawiad.

Dylech ddod gyda chi i'r gwrandawiad

- gopi o benderfyniad Cyllid a Thollau EM yr ydych yn apelio yn ei erbyn
- unrhyw bapurau eraill yr ydych wedi'u derbyn oddi wrth Gyllid a Thollau EM, gan gynnwys copïau o ohebiaeth
- nodyn o ddyddiad a chynnwys unrhyw sgyrsiau ffôn perthnasol a gawsoch gyda Chyllid a Thollau EM, ac enwau'r bobl y buoch yn siarad â hwy
- unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, e.e. cyfrifon, anfonebau, derbynebau neu gyfriflenni ban.

Fydd y gwrandawiad yn un cyhoeddus neu breifat?

Mae gwrandawiadau apêl gerbron y Comisiynwyr Cyffredinol a'r Comisiynwyr Arbennig yn agored i'r cyhoedd fel arfer, ond gall unrhyw barti yn yr achos wneud cais am gynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn breifat.

Y Tribiwnlys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar hyn. Er enghraifft, gallant benderfynu cynnal gwrandawiad yn breifat os credant mai dyna fyddai orau er budd trefn gyhoeddus, pobl ifanc neu i warchod bywyd preifat parti yn yr achos, neu os credant y gallai cyhoeddusrwydd beryglu budd cyfiawnder.

Os hoffech i ran neu'r cyfan o'ch gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat, dylech gysylltu â'r Clerc cyn gynted ag y derbyniwch hysbysiad o ddyddiad y gwrandawiad, gan egluro pam yr ydych eisiau i'ch gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat.

Beth sy'n digwydd yn ystod y gwrandawiad?

Gwrandawiadau gerbron Comisiynwyr Cyffredinol

Nod y Comisiynwyr Cyffredinol yw i wrandawiadau apêl fod mor anffurfiol â phosibl. Efallai y bydd gan wahanol Ranbarthau drefniadau ychydig yn wahanol i'w gilydd, a bydd y Clerc neu'r cadeirydd yn egluro'n union beth

fydd yn digwydd ar ddechrau pob gwrandawiad unigol. Ond, bydd pob gwrandawiad yn dilyn y patrwm cyffredinol a ddisgrifir isod.

Bydd y bobl ganlynol yn bresennol mewn gwrandawiad apêl fel rheol.

- Rhwng dau a phump (ond fel arfer tri) Comisiynydd Cyffredinol, gydag un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd
- Clerc y Comisiynwyr Cyffredinol
- Chi a/neu eich cynrychiolydd a'ch tystion, os oes gennych rai
- Un neu fwy o gynrychiolwyr Cyllid a Thollau EM (swyddogion lleol a'u tystion fel rheol, os oes ganddynt rai).

Gofynnir i chi a/neu eich cynrychiolydd a chynrychiolydd/cynrychiolwyr Cyllid a Thollau EM aros y tu allan i ystafell y gwrandawiad nes y bo'r Tribiwnlys yn barod i gychwyn y gwrandawiad.

Fel arfer, gofynnir i chi neu eich cynrychiolydd gyflwyno eich achos gyntaf, gan egluro pam y credwch fod penderfyniad Cyllid a Thollau EM yn anghywir a chefnogi eich dadl gyda thystiolaeth ddogfennol a/neu dystiolaeth ar lafar gan eich tystion.

Yna gofynnir i gynrychiolydd Cyllid a Thollau EM gyflwyno achos Cyllid a Thollau EM, gan ei egluro'n fanwl a chynnig tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad gwreiddiol.

Os byddai'n well gennych, gallwch ofyn am i achos Cyllid a Thollau EM gael ei gyflwyno yn gyntaf, a'ch achos chithau i ddilyn, ond y Tribiwnlys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar hyn.

Tra bydd parti'n cyflwyno'i achos, caniateir i'r parti arall holi'r llall neu ymateb i bwyntiau a godir gan y parti arall. Ond os teimla'r Tribiwnlys fod y cwestiynau'n amherthnasol neu os ydynt wedi derbyn y pwynt, gallant ofyn i chi stopio neu symud ymlaen. Gall y Tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi a/neu i'ch cynrychiolydd, i gynrychiolwyr Cyllid a Thollau EM ac unrhyw dystion.

Gwrandawiadau gerbron y Comisiynwyr Arbennig

Mae'r gwrandawiadau hyn yn dilyn yr un patrwm yn fras â gwrandawiadau gerbron y Comisiynwyr Cyffredinol, er y tueddir i'w cynnal mewn modd llawer mwy ffurfiol (yn debyg i lys barn confensiynol), a bydd y Comisiynwyr Arbennig bron bob amser yn disgwyl i chi gyflwyno eich achos yn gyntaf.

Fel arfer, bydd apeliadau'n cael eu clywed gan un Comisiynydd Arbennig, er y gall hyd at dri glywed achosion hwy neu fwy cymhleth. Gall cynrychiolwyr Cyllid a Thollau EM gynnwys cyfreithiwr neu fargyfreithiwr.

Beth sy'n digwydd ar ôl y gwrandawiad?

Pan fydd gwrandawiad eich apêl wedi gorffen, bydd y Tribiwnlys yn gofyn i bawb adael ystafell y gwrandawiad tra byddant yn ystyried eu penderfyniad.

Gallai'r Comisiynwyr Cyffredinol eich hysbysu ar lafar o'u penderfyniad ar ddiwedd y gwrandawiad neu gallant ddewis ei anfon atoch yn ysgrifenedig ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Yn y naill achos neu'r llall, anfonir copi ysgrifenedig o'r penderfyniad, a elwir yn **hysbysiad o ddyfarniad**, atoch chi ac at Gyllid a Thollau EM a byddant fel arfer yn rhoi crynodeb o'r rhesymau dros eu penderfyniad.

Bydd y Comisiynwyr Arbennig fel arfer yn anfon penderfyniad ysgrifenedig ffurfiol atoch chi ac at Gyllid a Thollau EM rai wythnosau wedi'r gwrandawiad. Fe'i cyhoeddir wedyn ar wefan y Comisiynwyr Arbennig a bydd ar gael ar ffurf copi papur, un ai fel y mae, neu, os cynhaliwyd y gwrandawiad yn breifat, gyda manylion personol wedi'u tynnu allan.

Beth alla' i wneud os ydw i'n colli f'apêl?

Os aiff penderfyniad y tribiwnlys yn eich erbyn, a'ch bod eisiau mynd â'r mater ymhellach, mae dau beth y gallwch eu gwneud. Gallwch

- ofyn i'r tribiwnlys a**dolygu eu penderfyniad mewn rhai amgylchiadau (gweler isod)**

- **apelio yn erbyn y penderfyniad** i'r Uchel Lys (neu yn yr Alban i Lys y Sesiwn neu yng Ngogledd Iwerddon i Lys Apêl Gogledd Iwerddon). Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad gwreiddiol a phenderfyniad yn dilyn adolygiad.

Mae gan Gyllid a Thollau EM hefyd hawl i wneud cais am adolygiad neu i gyflwyno apêl.

Mae'r drefn ar gyfer ceisio adolygiad yr un fath ar gyfer y Comisiynwyr Cyffredinol a'r rhai Arbennig. Mae'r drefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad yn wahanol.

Gofyn i'r Tribiwnlys adolygu'u penderfyniad

Gallwch ofyn i'r Tribiwnlys adolygu'u penderfyniad os gallwch eu bodloni

- bod eu penderfyniad yn anghywir oherwydd camgymeriad gweinyddol a wnaed gan y Clerc neu unrhyw un o staff y Tribiwnlys, neu gan unrhyw barti yn yr achos apêl; neu
- bod gennych chi neu eich cynrychiolydd neu unrhyw barti arall yn yr achos reswm da dros beidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl; neu
- nad oedd y Tribiwnlys wedi gweld cyfrifon neu wybodaeth berthnasol arall i'r achos, a oedd wedi'u hanfon at y Clerc neu at Gyllid a Thollau EM cyn y gwrandawiad, hyd nes yr oedd y gwrandawiad drosodd.

Gall y Tribiwnlys hefyd adolygu penderfyniad ohonynt eu hunain h.y. heb iddynt dderbyn cais i wneud hynny, os ydynt yn fodlon fod un neu fwy o'r meini prawf yn berthnasol.

Os ydych eisiau gofyn i'r Tribiwnlys adolygu ei benderfyniad, dylech ysgrifennu at y Clerc o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad o ddyfarniad atoch, neu erbyn pa amser bynnag allai gael ei ganiatáu gan y Tribiwnlys. Dylech gynnwys yn eich llythyr ddatganiad o'r rheswm/rhesymau paham eich bod eisiau adolygiad.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, gallai'r penderfyniad gael ei adolygu un ai gan y Tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad, neu gan Dribiwnlys gwahanol.

Gallant benderfynu disodli'r penderfyniad ag un gwahanol, gorchymyn i dribiwnlys gwahanol ail-glywed yr apêl, neu ail-glywed yr apêl eu hunain. Neu gallant benderfynu bod y penderfyniad gwreiddiol yn gywir ac y dylai sefyll.

Ni chodir tâl am wneud cais am adolygiad.

Apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys

Gallwch apelio i'r Uchel Lys (neu i Lys y Sesiwn neu Lys Apêl Gogledd Iwerddon) yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys – un ai'r penderfyniad gwreiddiol neu un newydd yn dilyn adolygiad – os credwch ei fod yn anghywir **ar bwynt cyfreithiol**. Yn fras, cyfyd pwynt cyfreithiol os ydych o'r farn fod y Tribiwnlys wedi camddehongli'r gyfraith oedd yn berthnasol i'ch achos, neu wedi cymhwyso'r ddeddf anghywir, neu wedi dod i gasgliad oedd yn gwbl anghyson â'r dystiolaeth, neu wedi torri rheolau cyfiawnder naturiol h.y. drwy weithredu'n annheg neu gyda rhagfarn. Ni allwch apelio ar bwynt ffeithiol (hynny yw, materion a ddarparwyd fel tystiolaeth y seiliwyd penderfyniad y Tribiwnlys arnynt.

Dalier sylw: Ychydig o seiliau sydd dros apelio. Cyn i chi benderfynu apelio, mae'n aml yn ddoeth ceisio cyngor proffesiynol gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu asiantaeth gynghori.

Gall yr Uchel Lys (Llys y Sesiwn neu Lys Apêl Gogledd Iwerddon) ddyfarnu costau (a elwir yn dreuliau yn yr Alban). Os ydych chi'n ennill yr apêl, mae hyn yn golygu y gallech chi adfer eich costau gan Gyllid a Thollau EM, ond os ydych chi'n colli, gall Cyllid a Thollau EM geisio adfer eu costau gennych chi.

Gall Cyllid a Thollau EM arfer eu doethineb o ran gofyn am gostau (neu dreuliau yn yr Alban), yn enwedig os mai nhw a apeliodd yn erbyn penderfyniad, a gallant, dan **amgylchiadau eithriadol**, ystyried hepgor eu costau neu wneud trefniadau eraill. Mae'r ffactorau dylanwadol yn cynnwys y risg o galedi ariannol i'r parti arall ac a yw'r achos yn un o

ddiddordeb arwyddocaol i drethdalwyr fel corff lle bo angen esbonio pwynt cyfreithiol. Fodd bynnag, y Llys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Cyffredinol

Os ydych eisiau apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Cyffredinol, dylech ysgrifennu at Glerc y Comisiynwyr Cyffredinol o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad yr ydych eisiau apelio yn ei erbyn. Yn eich llythyr dylech nodi'r canlynol

- dweud eich bod am i achos gael ei ddatgan ar gyfer yr Uchel Lys (neu Lys y Sesiwn neu Lys Apêl Gogledd Iwerddon)
- sicrhau eich bod yn nodi'n glir y pwynt cyfreithiol y mae dadl amdano. Mae gan y Comisiynwyr Cyffredinol hawl i fynnu eich bod yn gwneud hynny, ac os na wnewch, gallant wrthod datgan yr achos; a
- chynnwys y **ffi statudol** – mae hyn yn ychwanegol i'r ffi sy'n daladwy i'r llys am ffeilio'r apêl. Y swm ar hyn o bryd yw £25, a dylid gwneud sieciau'n daladwy i Glerc y Comisiynwyr Cyffredinol a glywodd eich apêl wreiddiol.

Bydd y Comisiynwyr wedyn yn paratoi datganiad drafft y bydd modd i chi a Swyddfa Cyfreithiwr Cyllid a Thollau EM wneud sylwadau arno. Ar ôl i'r holl sylwadau gael eu derbyn, bydd y Comisiynwyr yn paratoi drafft terfynol o'r achos a elwir yn **achos datganedig**, bydd y Comisiynwyr yn ei lofnodi a bydd y Clerc yn ei anfon atoch chi.

I gyflwyno'ch apêl yng Nghymru a Lloegr, rhaid i chi anfon yr achos datganedig ynghyd â dogfen arall a elwir yn **rhybudd yr apelydd**, ac a elwir hefyd yn Ffurflen N161. Gellir cael y ffurflen hon o unrhyw swyddfa llys sirol neu gan Glerc y Rhestrau, Swyddfa Gyffredinol/Swyddfa Apeliadau, Y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL Rhif ffôn: 020 7947 7354. Gellir ei llwytho hefyd oddi ar y wefan yn www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk drwy'r ddolen Ffurflenni a Thaflenni.

Efallai y bydd y Nodiadau canllaw - taflen N161A ar lenwi rhybudd yr apelydd, o gymorth i chi.

Does dim ffurflenni dynodedig i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon ond yn yr Alban dylech gyflwyno Ffurflen 41.9 ar ôl iddi gael ei llenwi gan y Tribiwnlys.

Rhaid i chi anfon copïau o'r achos datganedig, rhybudd yr apelydd ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill i Swyddfa Cyfreithiwr Cyllid a Thollau EM ac i unrhyw barti arall yn yr achos.

Dalier sylw: Mae'r holl gamau hyn yn y broses apêl yn ddarostyngedig i derfynau amser caeth. Mae'r terfynau amser yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol i'r rhai yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Dylech gysylltu â Chlerc y Comisiynwyr Cyffredinol a'r swyddfa Llys briodol i sicrhau eich bod yn deall ac yn cadw at y terfyn amser ar gyfer pob rhan o'r broses.

Apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Arbennig

Os ydych eisiau apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Arbennig, dylech anfon rhybudd yr apelydd wedi'i lenwi yn uniongyrchol i'r Uchel Lys (i Lys y Sesiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon) neu mewn rhai amgylchiadau i Lys Apêl Cymru a Lloegr. Am fwy o wybodaeth am apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynwyr Arbennig, darllenwch y daflen "Apeliadau ac achosion eraill gerbron y Comisiynwyr Arbennig" sydd ar gael oddi wrth y Tribiwnlys (gweler y cysylltiadau defnyddiol isod) neu cysylltwch â'r Llys.

Dalier sylw: Mae apeliadau i'r Comisiynwyr Arbennig yn ddarostyngedig i derfynau amser caeth sy'n amrywio yn ôl yr amgylchiadau a'r Llys yr ydych yn gwneud cais iddo. Dylech gysylltu â Chlerc y Comisiynwyr Arbennig a'r swyddfa Llys briodol i sicrhau eich bod yn deall ac yn cadw at y terfyn amser ar gyfer pob rhan o'r broses.

Dylech anfon copi o'ch hysbysiad at Glerc y Comisiynwyr Arbennig a chopi i Swyddfa Cyfreithiwr Cyllid a Thollau EM. Nid oes angen i chi wneud cais am achos datganedig, ac felly nid oes ffi statudol, ond erys ffi'r Llys am gyflwyno'r apêl.

Y gyfraith

Mae'r brif gyfraith sy'n nodi pwerau a gweithdrefnau'r tribiwnlysoedd treth a'r modd y gweinyddir hwynt, ac y seiliwyd y canllawiau yn y daflen hon arni, i'w gweld yn

- *Deddf Rheoli Trethi 1970 (Rhan V)*
- *Rheoliadau'r Comisiynwyr Cyffredinol (Awdurdodaeth a Gweithdrefn) 1994 (Offeryn Statudol 1994 Rhif 1812) fel y'i diwygiwyd gan SI 1999/3293, SI 2002/2976, SI 2004/1363, SI 2005/340 a SI 2007/3612*
- *Rheoliadau'r Comisiynwyr Arbennig (Awdurdodaeth a Gweithdrefn) 1994 (Offeryn Statudol 1994 Rhif 1811)*

Mae nifer o fanylion wedi eu newid ('diwygio') yn y darnau hyn o ddeddfwriaeth dros y blynyddoedd ers iddynt gael eu llunio'n wreiddiol, ac os ydych eisiau cyfeirio atynt, dylech sicrhau eich bod yn edrych ar y fersiynau diweddaraf. Gallwch weld fersiynau cyfun o Ddeddf Rheoli Trethi 1970 a *Rheoliadau'r Comisiynwyr Cyffredinol (Awdurdodaeth a Gweithdrefn)* 1994 yn www.generalcommissioners.gov.uk

Rhestr Termau

Apêl

Mae apelio neu wneud neu gyflwyno apêl yn golygu anfon hysbysiad ffurfiol (ysgrifenedig) at Gyllid a Thollau EM eich bod yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed ganddynt yn eich achos chi. Gellir setlo apêl drwy drafod a dod i gytundeb â Chyllid a Thollau EM neu, os na ellir gwneud hyn, drwy i'r achos gael ei glywed a'i benderfynu gan y Comisiynwyr Cyffredinol neu Arbennig.

Rhybudd yr Apelydd

Ffurflen (Ffurflen N161) i'w llenwi wrth apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Cyffredinol i'r Uchel Lys.

Achos datganedig

Crynodeb o'r ffeithiau a'r materion cyfreithiol y dadleuir amdanynt, a baratoir gan Glerc y Comisiynwyr Cyffredinol wrth apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynwyr Cyffredinol i'r Uchel Lys (neu yn yr Alban i Lys y Sesiwn neu i Lys Apêl Gogledd Iwerddon.

Clercod i'r Comisiynwyr

Swyddogion sy'n trefnu a rheoli gwaith y Comisiynwyr Cyffredinol ac Arbennig. Bydd y Clercod i'r Comisiynwyr Cyffredinol fel arfer yn gyfreithwyr cymwysedig a gallant gynghori'r Comisiynwyr Cyffredinol ar bwyntiau cyfreithiol. Mae'r Clercod i'r Comisiynwyr Arbennig yn weision sifil a ddarperir gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Rhanbarth

Ardaloedd daearyddol penodol lle mae'r Comisiynwyr Cyffredinol yn eistedd.

Gwrandawiad

Pan na ellir setlo apêl drwy drafodaeth rhwng y trethdalwr a Chyllid a Thollau EM, gall y ddau barti ddadlau eu hachos yn bersonol (gyda chynrychiolaeth os ydynt yn dymuno hynny) gerbron y Comisiynwyr Cyffredinol neu Arbennig mewn gwrandawiad o'r apêl.

Hysbysiad o asesiad

Hysbysiad ysgrifenedig gan Gyllid a Thollau EM yn nodi faint o dreth incwm y credant sy'n daladwy, gan ddangos sut y'i pennwyd.

Hysbysiad o ddyfarniad

Yn dilyn gwrandawiad bydd y Comisiynwyr yn anfon copi ysgrifenedig o'r penderfyniad, a elwir yn hysbysiad o ddyfarniad, i'r partïon yn yr achos.

Parti yn yr achos

Y ddwy ochr mewn apêl: y trethdalwr (ynghyd â'i gynrychiolydd) a Cyllid a Thollau EM.

Adolygiad

Y broses lle gall y Comisiynwyr Cyffredinol neu Arbennig edrych eto mewn rhai amgylchiadau ar benderfyniad a wnaed ganddynt i weld a oedd yn gwbl gywir. Mae adolygiad yn broses ar wahân i apêl.

Ffi statudol

Y ffi sy'n daladwy ar gyfer paratoi achos datganedig.

Cwynion

Nid oes dim cyfrwng ar gyfer cwyno am benderfyniadau ar apeliadau a wnaed gan y Comisiynwyr Cyffredinol neu Arbennig. Mae cwestiynau ynglŷn â theilyngdod achos arbennig, y dystiolaeth a gynigiwyd, y dehongliad o'r dystiolaeth honno neu'r penderfyniad a wnaed gan y tribiwnlys oll yn faterion barnwrol.

Nodir y drefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys yn y llyfryn hwn, ar dudalennau 12-22.

Os ydych yn anfodlon ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd gwrandawiad, neu ymddygiad swyddog unigol, gallwch gysylltu â:

Swyddfa'r Dyfarnwr
Eighth Floor Euston Tower
286 Euston Road
Llundain NW1 3US

t: 0300 057 111 neu 020 7667 1832
f: 0300 057 1212 neu 020 7667 1830

www.adjudicatorsoffice.gov.uk

(ynglŷn ag ymddygiad personol neu broffesiynol swyddogion Cyllid a Thollau EM)

Y Swyddfa Cwynion Barnwrol
4th floor Clive House
70 Petty France
Llundain SW1H 9HD

t: 020 7189 2937
f: 020 7189 2936

e: customer@ojc.gov.uk
www.judicialcomplaints.gov.uk

(ynglŷn ag ymddygiad personol Comisiynwyr Cyffredinol neu Arbennig)

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Comisiynwyr Cyffredinol - Polisi a Chyswllt
Procession House
Upper Ground West
55 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7JW

t: 020 7029 9839

(ynglŷn ag ymddygiad personol neu broffesiynol Clercod i'r Comisiynwyr Cyffredinol)

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Comisiynwyr Arbennig
15-19 Bedford Avenue
Llundain
WC1B 3AS

t: 020 7612 9700
f: +44 (0)207 436 4151

www.financeandtaxtribunals.gov.uk

(ynglŷn ag ymddygiad personol neu broffesiynol staff y Comisiynwyr Arbennig)

Cysylltiadau defnyddiol

Gall manylion cyswllt Cyllid a Thollau EM a'r tri thribiwnlys treth isod newid ddechrau 2009. Gwneir hyn er mwyn trosglwyddo apeliadau treth i'r Tribiwnlys newydd a chyflwyno proses adolygu mewnol newydd Cyllid a Thollau EM (disgwylir y bydd ar gael o fis Ebrill 2009). Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn http://www.financeandtaxtribunals.gov.uk/taxAppealsModernisation.htm

Cyllid a Thollau EM

Gallwch gael cyngor ac arweiniad ynghylch materion treth gan:

- y swyddfa Cyllid a Thollau EM leol neu Ganolfan Ymholiadau leol
- Gallwch gael copïau am ddim o daflenni gwybodaeth Cyllid a Thollau EM drwy eu llinell archebu

Ffôn: 0845 9000 404

Ffacs: 0845 9000 604

http://www.hmrc.gov.uk/contactus/staustellform.htm

Clerc y Comisiynwyr Cyffredinol

Rhestrir enwau a chyfeiriadau Clercod y Comisiynwyr Cyffredinol ar wefan y Comisiynwyr Cyffredinol. Gweler ' Cysylltu â Chlerc'. Neu gallwch ofyn am fanylion cysylltu Clerc eich Rhanbarth chi oddi wrth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Ffôn: 020 7029 9839

http://www.generalcommissioners.gov.uk

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Comisiynwyr Arbennig

15-19 Bedford Avenue
Llundain
WC1B 3ASTel: 020 7612 9700

Fax: +44 (0)207 436 4151

Gwefan: www.financeandtaxtribunals.gov.uk/SpecialCommissioners.htm

Am gyngor ar faterion cyfreithiol a threth:

Cyngor ar Bopeth

Efallai y gall eich swyddfa CAB leol gynnig cyngor a gwybodaeth am faterion treth. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad yn eich llyfr ffôn lleol, mewn llyfrgelloedd lleol neu ar wefan CAB.

www.citizensadvice.org.uk

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

The CLS can direct you to local lGall y GCC eich cyfeirio at wasanaethau cyfreithiol lleol; mae eu gwefan hefyd yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol.

Ffôn: 0845 345 4345

(minicom 0845 609 6677)

www.clsdirect.org.uk

Am wybodaeth am TAW ac ymholiadau apeliadau treth cysylltiedig

Tribiwnlys TAW a Thollau
15-19 Bedford Avenue
Llundain
WC1B 3AS

Ffôn: 020 7612 9700

www.financeandtaxtribunals.gov.uk

Os dymunwch wneud apêl yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys, gallwch gysylltu â:

Cymru a Lloegr

Swyddfa Apeliadau'r Uchel Lys
Ystafell WG07
Llysoedd Barn Brenhinol
Strand
Llundain
WC2A 2LL

Ffôn: 020 7947 7354

www.hmcourts-service.gov.uk

Yr Alban

Llys y Sesiwn
Parliament House
Parliament Square
Caeredin
EH1 1RQ

Ffôn: 0131 225 2595

www.scotcourts.gov.uk/index.asp

Gogledd Iwerddon

Llys Apêl (Gogledd Iwerddon))
Llysoedd Barn Brenhinol
Chichester Street
Belfast
BT1 3JF

Ffôn: 028 9032 8594

www.courtsni.gov.uk/en-GB

Am gyngor ar faterion treth

Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr
P O Box 433
Llundain EC2P 2BJ

Ffôn: 020 7920 8100
Gwefan: www.icaew.co.uk

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
CA House
21 Haymarket Yards
Caeredin, EH12 5BH

Ffôn: 0131 347 0100
Gwefan: www.icas.org.uk
Ebost: enquiries@icas.org.uk

Y Sefydliad Trethu Siartredig
12 Upper Belgrave Street
Llundain SW1X 8BB

Ffôn: 020 7235 9381
Gwefan: www.tax.org.uk
Ebost: post@tax.org.uk

Cymorth Treth
Room 304
Linton House
164-180 Union Street
Llundain SE1 0LH

Ffôn: 0845 120 3779
Gwefan: www.taxaid.org.uk
Ebost: contact@taxaid.org.uk